# Arolwg Blynyddoedd Cynnar

Cyflwynwyd i Flynyddoedd Cynnar Cymru
gan Ymchwil Arad

Awdurdon:
Kara Stedman kara@arad.wales
Sioned Lewis sioned@arad.wales

24 Chwefror 2022

Arad Research
8 Columbus Walk
Brigantine Place
Cardiff / Caerdydd CF10 4SD
029 2044 0552
www.arad.wales

ymchwil arad research

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad ... 3**

1.1 Methodoleg ... 3

**2. Staff ... 6**

**2.1 Nifer staff** ... 6

**2.2 Contractau staff** ... 6

**2.3 Ail swyddi neu incwm** ... 9

**3. Recriwtio ... 11**

3.1 Cadw staff ... 11

3.2 Recriwtio staff ... 13

**4. Cyfraddau tâl ... 18**

4.1 Cyfraddau tâl ar gyfartaledd ... 18

4.2 Y defnydd o gynlluniau a rhaglenni ... 18

**5. Gwarchodwyr ... 20**

5.1 Cymorthyddion gwarchod ... 20

5.2 Hyder mewn meysydd cysylltiedig â chymorthyddion gwarchod ... 22

5.3 Cyflog a chyllid ... 23

**6. Ystyriaethau cyffredinol ... 26**

**Rhestr o dablau ... 28**

**Rhestr o ffigyrau ... 29**

# 1. Cyflwyniad

Mae’r adroddiad hwn yn cyflwyno canlyniadau arolwg gwaith chwarae a gofal plant ar lein a gynhaliwyd rhwng Rhagfyr 2021 ac Ionawr 2022. Comisiynodd Blynyddoedd Cynnar Cymru Ymchwil Arad i gynnal ac i adrodd yn ôl ar holiadur yr arolwg ar ei ran. Casglodd yr arolwg wybodaeth oddi wrth leoliadau gofal plant a gwaith chwarae ar nifer y staff, recriwtio, swyddi gwag a chyflog er mwyn helpu Blynyddoedd Cynnar Cymru a’i bartneriaid yn sefydliad Cwlwm, i ddeall a chefnogi’r sector yn well.

## 1.1 Methodoleg

Cafodd cwestiynau’r arolwg eu drafftio gan Flynyddoedd Cynnar Cymru ac Ymchwil Arad, gyda mewnbwn oddi wrth bartneriaid Cwlwm. Roedd llawer o’r cwestiynau wedi’u haddasu o’r rhai a ddefnyddiwyd mewn ymchwil a gafodd ei gynnal ar gyfer Cyngor Gofal Cymru yr adeg hynny, yn 2006 - 2012.

Dosbarthwyd yr arolwg gan bum sefydliad Cwlwm (Blynyddoedd Cynnar Cymru, Clybiau Plant Cymru Kids’ Clubs, Mudiad Meithrin, Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA Cymru) a PACEY Cymru trwy e-bostio’u holl aelodau yn ystod mis Rhagfyr 2020.

Derbyniwyd 362 o arolygon wedi’u cwblhau gan ymatebwyr. Roedd llawer o’r cwestiynau’n ddewisol felly roedd ymatebwyr yn gallu sgipio un os oeddynt yn dymuno – pan nad yw nifer yr ymatebion yn adio i fyny i 362, mae hynny oherwydd bod ymatebwyr wedi sgipio’r cwestiynau hynny.

### Proffil o ymatebwyr arolwg

Derbyniwyd ymatebion oddi wrth bob un o’r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru ac mae tabl 1 yn dangos lledaeniad yr ymatebion fesul awdurdod lleol. Roedd ymatebwyr yn gallu dewis aml atebion os oedd ganddynt leoliadau ar draws mwy nag un awdurdod lleol ac felly mae’r cyfanswm yn adlewyrchu'r aml ymatebion.

Table 1: **Awdurdod Lleol**

| Awdurdod Lleol | Nifer o ymatebion |
|---|---|
| Blaenau Gwent | 4 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 8 |
| Caerffili | 14 |
| Caerdydd | 37 |
| Sir Caerfyrddin | 29 |
| Ceredigion | 8 |
| Conwy | 16 |
| Sir Dinbych | 12 |
| Sir y Fflint | 25 |
| Gwynedd | 28 |
| Ynys Môn | 19 |
| Merthyr Tudful | 5 |
| Sir Fynwy | 16 |
| Castell-nedd Port Talbot | 9 |
| Casnewydd | 17 |
| Sir Benfro | 24 |
| Powys | 19 |
| Rhondda Cynon Taf | 19 |
| Abertawe | 13 |
| Torfaen | 11 |
| Bro Morgannwg | 15 |
| Wrecsam | 22 |
| Cyfanswm | 370 |
| *Anhysbys* | *1* |

N=362. Noder fod gan rai ymatebwyr leoliadau mewn mwy nag un awdurdod lleol.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddynt wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru ac mae'r mwyafrif llethol (351 allan o'r 360 a atebodd y cwestiwn hwn) wedi'u cofrestru. Gofynnwyd i'r ymatebwyr i nodi'r prif wasanaeth neu beth maen nhw wedi'u cofrestru i'w ddarparu (gweler tabl 2), a gofal dydd sesiynol oedd yr ateb mwyaf cyffredin. Dewisodd nifer bach – 25 o ymatebwyr – i ddisgrifio'r gwasanaeth yr oeddynt yn ei ddarparu mewn ffordd arall. Roedd y disgrifiadau'n cynnwys cynlluniau plant, gofal cofleidiol a chlybiau brecwast / ar ôl ysgol.

Tabl 2: **Pa wasanaeth ydych chi'n darparu?**

| Gwasanaeth | Nifer o ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Gwarchodwr | 32 | 9% |
| Gofal dydd llawn | 163 | 45% |
| Gofal dydd sesiynol | 102 | 28% |
| Gofal plant allan o ysgol | 39 | 11% |
| Darpariaeth chwarae mynediad agored | 1 | 0% |
| Creche | 0 | 0% |
| Darparydd gofal plant arall / ddim yn siwr (nodwch): | 25 | 7% |
| CYFANSWM | 362 | 100% |

Gofynnodd yr arolwg pa fath o grŵp, sefydliad neu unigolyn sy'n berchen neu'n rheoli'r lleoliad (gweler tabl 3) a daeth y rhan fwyaf o ymatebion oddi wrth grwpiau gwirfoddol, cymunedol neu elusennol. Disgrifiodd 27 o ymatebwyr y math o grŵp, sefydliad neu unigolyn sy'n berchen ar eu lleoliad fel cael ei berchen mewn ffordd arall, gan gynnwys: menter gymdeithasol, Eglwys, sefydliad ymbarel, pwyllgor maes chwarae a'r awdurdod lleol.

Tabl 3: **Pa fath o grŵp, sefydliad neu unigolyn sy'n berchen neu'n rheoli'ch lleoliad?**

| Gwasanaeth | Nifer o ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Cwmni preifat (er elw) (Gan gynnwys gofal plant i weithwyr gan gan | 99 | 30% |
| Unig fasnachwr | 38 | 12% |
| Grŵp neu elusen gwirfoddol neu gymunedol (gan gynnwys Cylch) | 140 | 43% |
| Awdurdod lleol | 17 | 5% |
| Anghorfforaethol | 8 | 2% |
| Arall (nodwch): | 27 | 8% |
| Cyfanswm | 329 | 100% |
| *Anhysbys* | *33* | |

# 2. Staff

Mae’r adran hon yn cyflwyno canfyddiadau’r arolwg mewn perthynas â staff mewn lleoliadau. Mae’n amlinelli’r nifer o staff mewn lleoliadau, mathau o gontract a gwybodaeth am ail swyddi neu incwm aelodau o staff. Noder fod yr adran hon yn cyflwyno ymatebion y rhai sy'n darparu gofal dydd llawn, sesiynol, gofal dydd sesiynol, gofal plant allan o ysgol neu ddarpariaeth chwarae mynediad agored. Gofynnwyd set wahanol o gwestiynau i Ofalwyr ac mae’r canfyddiadau hynny’n cael eu cyflwyno yn adran 3.

## 2.1 Nifer staff

Gofynnwyd i’r ymatebwyr faint o staff maen nhw’n eu cyflogi yn eu lleoliad. Ar gyfartaledd, mae lleoliadau’n cyflogi 6.2 aelod o staff am dros 30 awr yr wythnos; 4 aelod o staff sy’n gweithio 16 – 30 awr yr wythnos; a 2.7 aelod o staff sy’n gweithio llai na 16 awr yr wythnos.

Tabl 4: **Faint o staff ydych chi’n cyflogi yn y lleoliad hwn?**

| Nifer staff | Nifer o ymatebion | Staff ar gyfartaledd fesul lleoliad |
|---|---|---|
| Staff a oedd yn gweithio mwy na 30 awr yr wythnos | 225 | 6.2 |
| Staff a oedd yn gweithio 16 – 30 awr yr wythnos | 272 | 4.0 |
| Staff a oedd yn gweithio llai na 16 awr yr wythnos | 209 | 2.7 |

N= 323

## 2.2 Contractau staff

Gofynnwyd i’r ymatebwyr a oedd gan eu staff contractau cyflogaeth. Dywedodd y mwyafrif (91%) fod gan eu holl staff gontract, gyda 5% pellach yn dweud fod gan rai o'u staff contact. Dim ond 2% dywedodd nad oedd gan eu staff contractau a doedd 1% ddim yn gwybod.

Gofynnwyd y cwestiwn ar gontractau er mwyn darganfod a oedd trefniadau staffio’n cael eu gweithredu’n gytundebol ac i ddeall mwy am sut mae’r sector yn gweithio’n broffesiynol ac yn gyfrifol gyda recriwtio a sicrwydd swydd i weithwyr. Yng nghyd-destun y farchnad swyddi ôl cyfnod clo, roedd yn bwysig holi am y trefniadau cytundebol gan fod twf wedi bod yn gyffredinol mewn gwaith oriau sero a gwaith hunan gyflogedig. Mae trefniadau recriwtio a chyflogaeth cadarn hefyd wedi bod yn ffactorau pwysig i alluogi cyflogwyr i gael mynediad at becynnau cefnogaeth grant mewn ymateb i’r pandemig ac felly dylen nhw cael eu hargymell gan y gwneuthurwyr polisi ar gyfer y sectorau gofal plant a gwaith chwarae.


Tabl 5: **Oes gan eich staff contract cyflogaeth?**

| Contractau Cyflogaeth | Nifer o ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Oes – yr holl staff | 300 | 91% |
| Oes – rhai staff | 18 | 5% |
| Nac Oes | 7 | 2% |
| Ddim yn gwybod | 3 | 1% |

N= 328

Mae Ffigwr 1 isod yn dangos y nifer o ymatebwyr sydd â chontractau ar gyfer eu staff am bob math o leoliad. Mae gan y mwyafrif o staff ym mhob lleoliad gontract.

Ffigwr 1: **Contract fesul math o leoliad**




N=328

Gofynnwyd i ymatebwyr faint o staff oedd yn cael eu cyflogi ar wahanol fathau o gontractau. Ar gyfartaledd roedd 8.7 o aelodau staff lleoliadau'n cael eu cyflogi ar gontractau parhaol; 2.6 o aelodau staff yn cael eu cyflogi ar gontractau dros dro; 2.4 o aelodau staff yn cael eu cyflogi ar gontractau oriau sero a 2.7 o aelodau staff yn cael  cyflogi ar mathau eraill o gontractau neu heb gontract.


Tabl 6: **Faint o staff sydd wedi'u cyflogi ar....?**

| Mathau o Gontract | Nifer o ymatebion | Cyfartaledd |
|---|---|---|
| Contractau parhaol | 293 | 8.7 |
| Contractau dros dro | 83 | 2.6 |
| Contract oriau sero | 61 | 2.4 |
| Math arall o gontract neb heb gontract | 3 | 2.7 |

N=320

Gofynnwyd i ymatebwyr a oedd unrhyw un o'u staff wedi'u cyflogi ar **gontract amser tymor yn unig.** Roedd ychydig dros hanner (53%, neu 172 o 323) yn datgan fod staff yn cael eu cyflogi ar y math hwn o gontract. Mae Ffigwr 2 yn dangos y nifer o ymatebwyr sydd â staff yn cael eu cyflogi ar gontract amser tymor yn unig ar gyfer pob math o leoliad. Gofynnwyd i ymatebwyr sy'n cyflogi staff ar gontractau amser tymor yn unig, faint o staff oedd ganddynt ar y mathau hyn o gontractau. Ar gyfartaledd, mae 4.3 o staff yn cael eu cyflogi ar gontractau amser tymor yn unig.

Ffigwr 2: **Contract amser tymor fesul math o leoliad**




N=324

Gofynnwyd i ymatebwyr hefyd a oedd unrhyw un o'u staff wedi'u cyflogi ar **gontract gwyliau ysgol yn unig.** Dim ond 18 o ymatebwyr (6%) sy'n cyflogi staff ar gontractau gwyliau ysgol (9 ymatebwr o leoliadau gofal dydd llawn; 3 o leoliadau gofal dydd sesiynol; 5 o leoliadau gofal plant allan o ysgol ac 1 o leoliad darparydd gofal plant arall). Gofynnwyd faint o staff sydd ganddyn nhw ar y mathau hyn o gontractau ac, ar gyfartaledd, mae 2.6 o staff yn cael eu cyflogi ar gontractau gwyliau ysgol yn unig.

## 2.3 Ail swyddi neu incwm

Gofynnwyd i ymatebwyr a oedd gan unrhyw un o'u staff ail swydd neu ail incwm (yr oedden nhw'n yn ymwybodol ohono) ac, yn ôl y mwyafrif o ymatebwyr, ar draws pob math o leoliad, roedd gan eu staff ail incwm neu swydd. Dywedodd bron iawn dri o bob pump (59%) fod gan aelodau o'u staff ail incwm neu swydd, a thua thraean (33%) heb un. Doedd gweddill yr ymatebwyr ddim yn gwybod.


Tabl 7: **Oes gan unrhyw un o'ch staff ail swydd neu ail incwm (rydych chi'n ymwybodol ohono?)**

| Staff gydag ail swydd neu incwm | Nifer o ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Oes | 195 | 59% |
| Nac Oes | 108 | 33% |
| Ddim yn gwybod | 27 | 8% |

N=331

Mae Ffigwr 4 isod yn dangos y nifer o ymatebwyr sydd â staff gydag ail swyddi neu incwm yn ôl pob math o leoliad.

Ffigwr 3: **Ail swydd neu incwm yn ôl math o leoliad**




N=331

Gofynnwyd i ymatebwyr sydd â staff gydag ail swyddi neu incwm faint o'u staff sy'n gweithio yn y swyddi canlynol: gofal plant, gwaith chwarae neu swyddi'n gysylltiedig ag addysg; a'r rhai mewn sectorau gwahanol. Adroddodd tua tri chwarter o'r rhai a atebodd fod gan staff ail

swyddi fod gan un neu fwy o staff ail swydd mewn gofal plant a sectorau cysylltiedig ac ychydig dros hanner (55%) yn adrodd fod gan un neu fwy o aelodau o staff swyddi mewn sectorau eraill. Y nifer o staff ar gyfartaledd sydd ag ail swydd neu incwm mewn gofal plant, gwaith chwarae neu'n gysylltiedig ag addysg yw 2.7; a'r nifer ar gyfartaledd yn gweithio mewn sectorau gwahanol yw 1.6 o staff fesul lleoliad.

# 3. Recriwtio


Mae’r adran hon yn cyflwyno canfyddiadau’r arolwg mewn perthynas â recriwtio. Mae’n amlinellu’r canfyddiadau ynghylch cadw staff, y rhesymau pam fod aelodau o staff yn gadael, recriwtio staff newydd, unrhyw broblemau a wynebir a'r swyddi gwag ar hyn o bryd. Mae’n bwysig nodi nad yw’r canfyddiadau a gyflwynir yma yn cynnwys gofalwyr a ymatebodd i’r arolwg.

## 3.1 Cadw staff

Gofynnwyd i ymatebwyr os oedden nhw neu unrhyw un o’u staff wedi gadael yn ystod y 12 mis diwethaf. Adroddodd dros hanner (65% neu 184 o’r 329 a atebodd y cwestiwn hwn) fod staff wedi gadael yn y 12 mis diwethaf. O’r rhai yr oedd â staff wedi gadael yn ystod y 12 mis diwethaf, y nifer o staff ar gyfartaledd a adawodd yw 2.9.

Mae Ffigwr 5 yn dangos faint o ymatebwyr sydd â staff yn gadael yn ystod y 12 mis diwethaf yn ôl math o leoliad. Ymddengys mai lleoliadau gofal dydd llawn a gofal plant ysgol sydd wedi’u heffeithio fwyaf gan staff yn gadael yn ystod y 12 mis diwethaf.

Ffigwr 4: **Lleoliadau ble mae staff wedi gadael yn ystod y 12 mis diwethaf**





N=329

Gofynnwyd i'r rhai sydd yr oedd staff wedi gadael eu lleoliad yn ystod y 12 mis diwethaf, am eu barn ynghylch y prif resymau dros yr aelod(au) o staff yn gadael. Y rheswm mwyaf cyffredin oedd amgylchiadau personol (42%), yn cael ei ddilyn gan well cyflog mewn sector arall (42%) a rhesymau yn ymwneud ag oriau (h.y. oriau neu amseroedd anaddas) yn ôl 37% o ymatebwyr. Roedd tua un mewn pump, neu lai, wedi nodi'r rhesymau fel gofynion y

swydd (21%), wedi ymladd yn llwyr ar ôl cyfnod Covid-19 (20%) a gwell cyflog mewn lleoliad gofal plant neu waith chwarae arall (16%). Crybwyllodd llai (5%) ddiffyg cyfleoedd am ddyrchafiad fel un o'r prif resymau ac un mewn pump (20%) hefyd rhesymau 'eraill'. Roedd rhai o'r rhain yn cynnwys: mynd ar gyfnod mamolaeth; mynd i'r brifysgol; am resymau iechyd meddwl; newidiadau yn eu contractau; ymddeoliad; symud ardal.


Ffigwr 5: **Rhesymau dros staff yn gadael**




N=182

O'r rhai sydd yr oedd eu staff wedi gadael eu lleoliad yn ystod y 12 mis diwethaf, gofynnwyd hefyd i ble yr aeth y staff oedd wedi gadael. Lleoliad gofal plant neu waith chwarae arall (44%) oedd yr ateb mwyaf cyffredin, yn cael ei ddilyn gan waith mewn maes anghysylltiedig (39) a gwaith mewn ysgol (31%). Dywedodd ychydig yn llai eu bod wedi gadael i weithio mewn rhannau eraill o'r sector gofal (18%) ac i ymddeol (9%). Mae'n werth nodi nad oedd 17% yn gwybod ble roedd staff yn mynd ar ôl gadael.

Ffigwr 6: **Pen taith staff ar ôl gadael cyflogaeth y lleoliad**




N=181

Gofynnwyd i'r rhai a ddywedodd bod staff wedi gadael i weithio mewn maes anghysylltiedig i ba faes yr aeth y staff i weithio. Atebodd 68 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Mae'r canlynol yn amlinellu'r prif feysydd y nododd ymatebwyr mae eu staff wedi gadael i fynd iddyn nhw.

- Swyddi manwerthu / lletygarwch/ gwasanaethau'r cwsmer – 28 ymateb
- Swyddi mewn swyddfa a gweinyddiaeth, gan gynnwys yswiriant, adnoddau dynol a chanolfannau galwadau – 19 ymateb
- Swyddi'n gysylltiedig â gofal / gofal iechyd eraill, gan gynnwys gweithwyr ysbyty, deintyddiaeth a chartrefi gofal – 8 ymateb

Swyddi eraill, gan gynnwys gwaith ffatri, glanhau, harddwch ac amaethyddiaeth – 23 ymateb

## 3.2 Recriwtio staff

Roedd tri allan o bob pump o ymatebwyr (60%) wedi recriwtio staff newydd yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd 12% wedi ceisio recriwtio ond wedi methu a doedd 28% ddim angen recriwitio. O'r rhai oedd wedi recriwitio staff newydd, ar gyfartaledd, 2.9 o staff newydd oedd wedi'u recriwitio yn ystod y 12 mis diwethaf.


Tabl 8: **Ydych chi wedi recriwtio staff newydd yn ystod y 12 mis diwethaf**

| Wedi recriwtio staff newydd yn ystod y 12 mis diwethaf | Nifer o ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Do – rwyf wedi recriwtio staff newydd | 197 | 60% |
| Naddo- rwyf wedi ceisio recriwtio ond wedi methu | 40 | 12% |
| Naddo – doedd dim angen recriwtio | 92 | 28% |

N=329

Mae Ffigwr 8 yn dangos faint o ymatebwyr sydd wedi recriwtio staff newydd yn ystod y 12 mis diwethaf yn ôl math o leoliadau. Lleoliadau sy'n cynnig gofal dydd llawn oedd y gyfran fwyaf o'r rhai oedd wedi recriwtio staff newydd.

Ffigwr 7: **Wedi recriwtio staff newydd yn ystod y 12 diwethaf yn ôl lleoliad**




N=329

Gofynnwyd i ymatebwyr a oedd ganddyn nhw unrhyw swyddi gwag ar hyn o bryd. Atebodd 37% o ymatebwyr fod ganddyn nhw swyddi gwag a 63% nad oedd ganddyn nhw swyddi gwag ar hyn o bryd. O'r rhai â swyddi gwag ar hyn o bryd, cyfartaledd nifer y swyddi gwag oedd ar gael yw 2.2.


Tabl 9: **A oes gennych chi swyddi gwag ar hyn o bryd.**

| Swyddi Gwag: | Nifer o ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Oes | 120 | 37% |
| Nac Oes | 207 | 63% |

N=327

Dengys Ffigwr 8 isod faint o ymatebwr oedd â swyddi gwag ar hyn o bryd, yn ôl mathau o leoliadau. Mewn lleoliadau gofal dydd sesiynol y mae'r gyfran fwyaf o swyddi gwag (80 o ymatebwr gyda swyddi gwag ar hyn o bryd o gymharu â 22 heb swyddi gwag, yn y math hwn o leoliadau).

Ffigwr 8: **Sydd â swyddi gwag ar hyn o bryd yn ôl lleoliad.**




N=327

Gofynnwyd i ymatebwyr a oedd wedi bod yn anodd iddyn nhw recriwtio staff ar gyfer eu lleoliad yn ystod y 12 diwethaf. Dengys y tabl isod fod 57% o ymatebwyr wedi cael hynny'n anodd. Ar ôl eithrio'r rhai nad yw hyn yn berthnasol iddyn nhw / nad oedd angen recriwtio, mae'r ffigwr hwn yn codi i 77%, sy'n golygu, o'r rhai sydd wedi ceisio recriwtio yn ystod yn 12 mis diwethaf, fod y rhan fwyaf wedi trafferth gwneud hynny.


Tabl 10: **A oedd hi'n anodd recriwtio staff ar gyfer eich lleoliad yn ystod y 12 diwethaf?**

| Anodd recriwtio | Nifer o ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Oedd | 188 | 57% |
| Nac Oedd | 57 | 17% |
| Amherthnasol neu ddim angen recriwtio | 82 | 25% |

N=327

Mae Ffigwr 10 yn dangos faint o ymatebwyr sydd wedi cael trafferth recriwtio staff newydd yn ystod y 12 mis diwethaf, yn ôl math o leoliadau.


Ffigwr 9: **Wedi cael trafferth recriwtio staff newydd yn ystod y 12 mis diwethaf, yn ôl lleoliad**




N=327

Gofynnwyd i'r rhai oedd yn adrodd eu bod yn cael trafferth recriwtio beth oedden nhw'n ei feddwl oedd y prif resymau dros hynny. Rheswm y rhan fwyaf o ymatebwyr oedd nad oedden nhw'n gallu canfod staff cymwys (78%). Roedd tua hanner yr ymatebwyr yn adrodd fod hynny oherwydd fod y cyflog yn rhy isel i ddenu staff (54%) ac nad oedden nhw'n gallu cynnig digon o oriau i ddenu staff (47%). Adroddodd tua chwarter yr ymatebwyr resymau megis cystadleuaeth oddi wrth leoliadau gofal plant eraill (27%), cystadleuaeth oddi wrth sectorau eraill (26%) ac nad oedden nhw'n gallu canfod staff gyda sgiliau addas yn y Gymraeg (24%).

Ffigwr 10: **Y prif resymau dros broblem recriwtio**




N=187

Roedd ymatebwyr yn cael cyfle i gyflwyno sylwadau pellach ar eu hatebion uchod o ran trafferthion recriwtio. Roedd y sylwadau’n cynnwys: trafferth recriwtio oherwydd oriau gwaith anghyfleus - oriau'n rhy hir i'r rhai gyda phlant ifanc, neu oriau'n rhy fyr i ddenu staff newydd, methu â chyflogi pobl heb gwblhau eu L3 neu heb ddigon o sgiliau yn y Gymraeg, cystadlu gyda sectorau eraill sy'n talu'n well a chyflogau ddim yn adlewyrchu cyfrifoldebau'r swydd, dim digon o ymgeiswyr neu bobl ddim yn troi i fyny ar ôl cael cynnig swydd, problemau gyda phobl ddim yn gallu gweithio mwy o oriau oherwydd effeithiau credyd cynhwysol neu'n cystadlu gyda thaliadau buddion, ac effeithiau Covid 19 megis risgiau gweithio gyda phlant ifanc, pobl yn gorfod aros gartref i edrych ar ôl eu plant eu hunain.

# 4. Cyfraddau tâl

Mae'r adran hon yn cyflwyno canfyddiadau'r arolwg mewn perthynas â chyfraddau tâl. Mae'n dangos cyfartaledd y cyfraddau tâl yn ôl yr awr i staff sy'n defnyddio cynlluniau a rhaglenni'r Llywodraeth. Mae'n bwysig nodi nad yw'r canfyddiadau sy'n cael eu cyflwyno yma'n cynnwys gofalwyr plant a ymatebodd i'r arolwg.

## 4.1 Cyfraddau tâl ar gyfartaledd.

Holwyd lleoliadau beth oedd eu cyfraddau tâl, ar gyfartaledd, ar gyfer gwahanol swyddi, fel y dangosir yn nhabl 15.

Tabl 11: **Beth yw'r cyfraddau tâl, ar gyfartaledd ar gyfer y canlynol:**

| Cyfraddau tâl | Nifer o ymatebion | Cyfartaledd yr awr |
|---|---|---|
| Arolygwyr, Rheolwyr neu Arweinwyr: £ yr awr | 263 | £10.90 |
| Staff cymwys ar Lefel 3 perthnasol i sector (heblaw arolygwyr: £ yr awr | 255 | £9.30 |
| Staff cymwys ar Lefel 3 perthnasol i sector: £ yr awr | 157 | £8.70 |
| Staff heb gymwysterau: £ yr awr | 117 | £7.80 |

N= 323

## 4.2 Y defnydd o gynlluniau a rhaglenni

Gofynnwyd i ymatebwyr a oedd wedi bod yn anodd iddyn nhw recriwtio staff ar gyfer eu lleoliad yn ystod y 12 diwethaf. Dengys y tabl isod fod 57% o ymatebwyr wedi cael hynny'n anodd. Ar ôl eithrio'r rhai nad yw hyn yn berthnasol iddyn nhw / nad oedd angen recriwtio, mae'r ffigwr hwn yn codi i 77%, sy'n golygu, o'r rhai oedd wedi ceisio recriwtio yn ystod yn 12 mis diwethaf, fod y rhan fwyaf wedi trafferth gwneud hynny.


Tabl 12: **Ydych chi wedi defnyddio cynlluniau Prentisiaeth y Llywodraeth, cynllun Prentisiaeth Mudiad Meithrin neu raglen Childcare Works Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd yn ystod y 12 mis diwethaf?**

| Y defnydd o gynlluniau a rhaglenni | Nifer o ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Do – Cynllun Prentisiaeth y Llywodraeth | 71 | 23% |
| Do – Cynllun Mudiad Meithrin | 22 | 7% |
| Do – Childcare Works | 3 | 1% |
| Naddo | 202 | 65% |
| Ddim yn gwybod | 15 | 5% |

N=313

Dengys Ffigwr 12 nifer yr ymatebwyr a ddefnyddiodd gynlluniau Prentisiaeth y Llywodraeth, cynllun Prentisiaeth Mudiad Meithrin neu raglen Gwaith Gofal Plant Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd yn ystod y 12 mis diwethar, yn ol math o leoliad.

Ffigwr 11: **Wedi defnyddio cynlluniau Prentisiaeth y Llywodraeth, cynllun Prentisiaeth Mudiad Meithrin neu raglen Childcare Works Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd yn ystod y 12 mis diwethaf fesul lleoliad**




N=313

# 5. Gwarchodwyr

Dyluniwyd adran o'r arolwg i gael ei chwblhau gan warchodwyr yn unig. Mae'r adran hon yn cyflwyno canlyniadau y 32 o warchodwyr a ymatebodd i'r arolwg. Dylid cofio mai sampl fach yw hyn ac efallai, felly, nad yw'r canlyniadau'n gynrychioliadol o holl warchodwyr. Yn ogystal, roedd llawer o'r cwestiynau yn canolbwyntio ar gymorthyddion gwarchod, felly, efallai nad oedd y gwarchodwyr heb gymorthyddion wedi dewis cwblhau'r arolwg, ac felly dylid dehongli'r canlyniadau'n ofalus.

Mae'r adran hon yn dangos nifer y gwarchodwyr sydd â chymorthyddion gwarchod, eu rhesymau dros weithio gyda chymhorthydd gwarchod a gwybodaeth ynghylch eu recriwtio a'u contractau. Mae hefyd yn dangos sut mae gwarchodwyr yn graddio'u hyder mewn perthynas â chymorthyddion gwarchod, yn ogystal â rhoi gwybodaeth ynghylch sut mae'r gwarchodwyr hyn yn rheoli'u cyllid.

## 5.1 Cymorthyddion gwarchod

Mae Tabl 17 yn dangos y nifer y gwarchodwyr sydd â chymorthyddion gwarchod a ymatebodd i'r arolwg. Nid oedd gan dros hanner (19 allan o 32) gymorthyddion, nac erioed wedi ystyried hynny. Roedd gan saith o warchodwyr a ymatebodd i'r arolwg gymhorthydd gwarchod, sef 22 y cant o'r holl warchodwyr a ymatebodd, ffigwr sy'n uwch na gwaith arolygu Arolygiaeth Gofal Plant yn ddiweddar, oedd yn dangos mai 11% o warchodwyr sy'n cyflogi cymhorthydd ar hyn o bryd.

Gofynnwyd i'r gwarchodwyr pam nad oedden nhw'n gweithio gyda chymhorthydd. Roedd y rhesymau'n amrywio o fethu â fforddio cymhorthydd (ni fyddai prisiau presennol gwarchod plant yn gallu talu am gymhorthydd); methu â chanfod staff dibynadwy neu bryder efallai byddai cymhorthydd yn annibynadwy; dim lle i gymryd plant ychwanegol a ddim eisiau'r cyfrifoldeb o gyflogi cymhorthydd.

Tabl 13: **Ydych chi'n gweithio gyda chymhorthydd gwarchod?**


| Gweithio gyda chymhorthydd gwarchod | Nifer o ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Nac ydw | 7 | 22% |
| Nac ydw, ond rwyf wedi gwneud yn y gorffennol | 4 | 13% |
| Nac ydw, ond byddaf yn ystyried hynny | 2 | 6% |
| Nac ydw ac erioed wedi ystyried y peth | 19 | 59% |

N= 32

Dywedodd saith gwarchodwr a ymatebodd i'r arolwg eu bod yn gweithio gyda chymhorthydd gwarchod. Mae pump o'r gwarchodwyr hyn yn cyflogi cymorthyddion mewn swydd cyflogedig, gyda chyfartaledd y nifer sy'n cael eu cyflogi yn ddau. Mae tri gwarchodwr yn cyflogi cymorthyddion yn wirfoddol (di- dâl). Y nifer sy'n cael eu cyflogi ar gyfartaledd yn wirfoddol yw 0.5.

Gofynnwyd i'r gwarchodwyr beth oedd wedi ysgogi'u penderfyniad i weithio gyda chymhorthyddion gwarchod. Roedd y rhan fwyaf (6 allan o 7) wedi'u hysgogi gan yr angen am gefnogaeth ar adegau prysur o'r dydd (e.e. hebrwng plant i ac o'r ysgol) a chyfarfod â'r gofyn lleol am leoedd gofal plant (4 allan o 7). Roedd rhai'n cael eu hysgogi trwy allu darparu gwasanaeth mwy hyblyg (3 allan o 7), i gael mwy o incwm (2 allan o 7) ac i gefnogi anghenion y plant (1 allan o 7).


Ffigwr 12: **Rhesymau dro weithio gyda chymhorthydd gwarchod**




N=7

Aeth y rhan fwyaf (5 allan o 7) o'r gwarchodwyr yn uniongyrchol at aelod o'r teulu / ffrind wrth recriwtio eu cymhorthydd(ion) gwarchod. Roedd dulliau eraill yn cynnwys recriwtio ffurfiol (h.y. hysbyseb swydd) neu ar lafar. Y dull 'arall' a roddwyd oedd recriwtio trwy leoliad coleg.

Ffigwr 13: **Recriwtio cymhorthydd gwarchod**




N=7


Roedd y mwyafrif (6 allan o 7) o warchodwyr wedi paratoi swydd ddisgrifiadau ar gyfer eu cymorthyddion. Eglurodd yr un gwarchodwr nad oes ganddi swydd ddisgrifiadau fod hynny

mai oherwydd ei mam yw'r cymhorthydd a'i bod yn helpu i hebrwng y plant i'r ysgol ac yn ôl. Ymhellach, mae gan bump o warchodwyr gontractau ar gyfer pob cymhorthydd (cyflogedig a di-dâl) tra nad oes gan ddau gontractau o gwbl. Eglurodd y ddau warchodwr nad oes ganddyn nhw contractau fod hynny oherwydd mai gwirfoddolwr yw'r cymhorthydd a'i fod yn ŵr iddi. O'r rhai a oedd yn fodlon datgelu cyfartaledd graddfeydd tâl yr awr eu cymhorthydd(ion), roedd pob un o'r pedwar gwarchodwr yn talu'u cymorthyddion £8.91 yr awr, y cyflog byw cenedlaethol presennol.

## 5.2 Hyder mewn meysydd cysylltiedig â chymorthyddion gwarchod


Gofynnwyd i'r gwarchodwyr, ac eithrio'r rhai nad oedd erioed wedi ystyried gweithio gyda chymorthyddion gwarchod, pa mor hyderus maen nhw'n teimlo ynghylch gweithio gyda chymhorthydd gwarchod. Mae Ffigwr X a X isod a throsodd yn dangos y lefelau o hyder ym mhob maes. Y meysydd gyda'r canran uchaf o warchodwyr yn teimlo'n hyderus yw cadw cofnodion / ffeiliau staff (8 yn hyderus a 3 yn hyderus iawn) a chyfraith cyflogaeth, rheoliadau ac yswiriant (9 yn hyderus ac 1 yn hyderus iawn). Y maes gyda'r canran isaf o warchodwyr yn teimlo'n hyderus yw contractau cymorthyddion gwarchod (6 yn teimlo'n hyderus).

Ffigwr 14: **Hyder mewn meysydd cysylltiedig â gweithio gyda chymhorthydd gwarchod**




?
N=12

Ffigwr 15: **Hyder mewn meysydd cysylltiedig â gweithio gyda chymhorthydd gwarchod**




N=13

## 5.3 Cyflog a chyllid

Mae'r tabl isod yn dangos sut mae gwarchodwyr yn talu eu hunain. Nid yw'r rhan fwyaf (22 allan o 32) yn talu cyflog penodol iddyn nhw eu hunain ond yn hytrach yn dibynnu ar beth sydd ar ôl o'r incwm ar ôl tynnu eu gwariant. Dim ond pedwar o warchodwyr sy'n talu cyflog penodol iddyn nhw eu hunain pob mis, ac mae chwe gwarchodwr yn talu cyflog hyblyg iddyn nhw eu hunain yn dibynnu ar anghenion ac incwm / gwariant y busnes.

Tabl 14: **Fel gwarchodwr ydych chi'n talu cyflog i chi'ch hunain?**

| Gweithio gyda chymhorthydd gwarchod | Nifer o ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Ydwyf, cyflog penodol pob mis | 4 | 12% |
| Ydwyf, cyflog hyblyg yn dibynnu ar anghenion ac incwm / gwariant y busnes | 6 | 19% |
| Nac ydwyf, dim ond dibynnu ar beth sydd ar ôl allan o'r incwm ar ôl tynnu'r gwariant | 22 | 69% |
| Nac ydwyf, dim ond yn talu costau rhwng incwm a gwariant neu wneud colled | 0 | 0% |

N= 32

Mae'r tabl isod yn dangos fod tua un o bob pump o ofalwyr plant yn cynllunio eu harian a'u cyllideb ymlaen llaw (12 o ofalwyr plant), neu yn gwneud hynny weithiau (13 o ofalwyr plant). Nid yw un o bob pump (7 o ofalwyr plant) yn cynllunio eu harian na'u cyllideb. Cafodd y gofalwyr plant gyfle i gyflwyno sylwadau pellach ar y cwestiwn hwn, dywedodd sawl un fod y pandemig a'r sefyllfa ansicr wedi'i gwneud yn anos i baratoi cyllideb ymlaen llaw a dywedodd un gofalwr y dylai fod yn dechrau cynllunio a pharatoi cyllideb ymlaen llaw.

Tabl 15: **Ydych chi'n cynllunio eich arian a'ch cyllideb ymlaen llaw?**

| Cynllunio arian a chyllideb ymlaen llaw | Nifer o ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Ie | 12 | 37% |
| Nage | 7 | 22% |
| Weithiau | 13 | 41% |

N= 32

Gofynnwyd i'r gofalwyr a oedd ganddyn nhw arian wrth gefn / cynilion ar gyfer eu hincwm a'u gwariant. Roedd gan tua thraean o ofalwyr arian wrth gefn / arbedion am 6 mis neu lai (10 o ofalwyr plant) a 9 gofalwr am lai na 6 mis. Doedd gan ddeg o ofalwyr plant eraill ddim arian wrth gefn / cynilion ar y pryd, ond wedi ystyried hynny, tra thri yn unig o ofalwyr oedd heb ystyried hynny o gwbl. Eglurodd sawl gofalwr nad ydyn nhw'n ennill digon i gael arian wrth gefn a doedd eraill ddim wedi gallu hynny oherwydd ansicrwydd y pandemig.

Tabl 16: **Oes gennych chi arian wrth gefn/cynilion i dalu am eich incwm a'ch gwariant? (h.y. rhag ofn y bydd gennych lai o blant yn sydyn, argyfwng neu gau'r lleoliad)**

| Arian wrth gefn / cynilion | Nifer o ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Oes - 6 mis neu fwy | 10 | 31% |
| Oes - llai na 6 mis | 9 | 28% |
| Nag oes – ond wedi ystyried hynny | 10 | 31% |
| Nag oes – a heb ystyried hynny | 3 | 9% |

N= 32

# 6. Ystyriaethau cyffredinol

Gofynnwyd y cwestiwn canlyn i bob ymatebwr (gan gynnwys gofalwyr ):

> ”Yn eich barn chi, beth yw'r prif heriau mewn recriwtio staff i'r sector gofal plant a gwaith chwarae a'u cadw yno? (er enghraifft, hyfforddiant, dilyniant gyrfa, cyflog)”

Cafwyd 281 o ymatebion ysgrifenedig i'r cwestiwn hwn. Dangosir y themâu allweddol yn codi o'r sylwadau hynny isod, mewn trefn amlder.

Y thema fwyaf cyffredin yn codi oedd ynghylch **cyflog**, oedd yn cael ei grybwyll gan 172 o ymatebwyr. Roedd yr ymatebion yn crybwyll fod cyflogau'n rhy isel yn y sector, na allai'r sector fforddio codi rhagor ar eu ffioedd (diffyg arian, byddai'n golygu derbyn llai o blant, nid yw rhieni'n gallu fforddio gofal plant fel ag y mae), felly mae'n rhaid iddyn nhw dalu cyflogau isel am waith sydd a llawer o gyfrifoldebau. Crybwyllwyd hefyd, oherwydd fod cyflogau'n isel, nad yw lleoliadau gofal plant yn gallu cystadlu â sectorau eraill sy'n talu isafswm cyflog neu fwy ond sydd â llawer llai o gyfrifoldeb Dywedwyd nad yw staff gofal plant yn derbyn y gydnabyddiaeth na'r haeddiant ariannol am wneud swydd mor anodd a phwysig

> “Mae'n sector lle mae'r cyflogau'n isel, mae'n waith sy'n gofyn llawer iawn ond nid yw'n bosibl talu mwy a goroesi'n ariannol. .“ (Darparydd gofal dydd llawn)
> “Mae cyflogau staff gofal plant yn llawer iawn rhy isel o gofio'r cyfrifoldebau y maen nhw'n eu hysgwyddo wrth ofalu am blant mor fychan a hefyd yr holl waith papur a gwaith ar ôl oriau y mae'n rhaid iddyn nhw ei wneud. (Darparydd gofal dydd sesiynol))

Yr ail thema fwyaf cyffredin oedd ynghylch cael **staff cymwys**, oedd yn cael ei grybwyll gan 101 o ymatebwyr. Roedd yr ymatebion hyn yn crybwyll yr anhawster o ganfod staff cymwys, yn ogystal â chanfod staff o safon sydd â'r brwdfrydedd a'r nodweddion i weithio gyda phlant. Yn benodol, roedd rhai'n crybwyll ei bod yn anodd cael staff gyda'r cymhwyster lefel 3 angenrheidiol. Cyfeiriodd rhai hefyd at ba mor anodd yw i rai gael hyfforddiant ac mor anodd yw i leoliadau ddal i hyfforddi staff. Roedd hyn yn aml yn cael ei gysylltu gyda chyflogau, gyda llawer yn teimlo nad yw'r cyflogau'n annog staff i gael y cymwysterau gan mai ychydig o fantais ariannol sydd i hynny.

> “Rwy wedi bod yn hysbysebu ers chwe mis ac wedi methu recriwtio, rwy wedi cyflogi dwy ferch ifanc oedd eisiau cymhwyster gofal plant ond a benderfynodd yn erbyn hynny. Allai i ddim canfod neb gyda chymhwyster gwaith chwarae, rydyn ni mewn ardal wledig bum milltir o'r dref agosaf. Rwy wedi anfon cylchlythyrau i'r ysgol i ofyn i rieni a fydden nhw â diddordeb a hefyd i gynnig gofal plant am ddim ond doedd yna ddim un ymgeisydd. (Darparydd gofal plant allan o ysgol)

Y drydedd thema fwyaf cyffredin oedd **oriau** gwaith, a oedd yn cael ei grybwyll gan 99 o ymatebwyr. Roedd ymatebion i'r thema hon yn amrywio, gyda rhai'n dweud fod yr oriau gwaith y rhai mewn lleoliadau gofal plant yn rhy hir, gyda dyddiau hirion yn gyffredin iawn. Dywedodd eraill nad oedden nhw'n gallu cynnig digon o oriau, neu oriau anhyblyg neu annibynadwy, oedd yn golygu diffyg sefydlogrwydd i staff. Roedd hyn yn gysylltiedig hefyd â'r rhai oedd yn dweud nad oedden nhw'n allu cynnig sefydlogrwydd ar ffurf contractau i

staff, oherwydd yr oriau gwaith amhendant, a bod hynny, felly, yn ei gwneud yn anodd i recriwtio a chadw staff.

> “Ychydig o oriau sydd ar gael, ac, wrth redeg clwb brecwast ac ar ôl ysgol, mae yna ddechrau cynnar iawn ac yna fwlch mawr segur tan orffen yn hwyr” (Darparydd clwb brecwast ac ar ôl ysgol)

Roedd yna sawl thema arall oedd yn codi yn y sylwadau gan lai na'r ddegfed ran o'r ymatebwyr. Un thema oedd y trafferth o ganfod **staff yn siarad Cymraeg** a’u hannog i fagu’r hyder i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg (20 o ymatebwyr). Thema arall oedd yn cael ei chrybwyll gan 20 o ymatebwyr oedd y trafferthion yr oedd y **pandemig COVID-19** wedi'i greu. Roedd y sylwadau ynghylch y diffyg cefnogaeth a chydnabyddiaeth i’r sector gofal plant yn ystod y pandemig, yn enwedig o gymharu â gweithwyr allweddol eraill. Crybwyllodd amryw hefyd effeithiau’r pandemig ar staffio ac ar faint o blant oedd yn dod i'r lleoliad, gyda llai o staff yn debygol o gymryd swyddi mewn gofal plant oherwydd mwy o risg o COVID-19, yn ogystal â bod rhai rhieni’n gweithio o adref ac bod yna, felly, lai o ofyn am ofal plant. Problem arall a nodwyd oedd **diffyg dilyniant gyrfa** ar gyfer y rhai sy’n gweitho mewn lleoliadau gofal plant (19 o ymatebwyr). Roedd y sylwadau’n crybwyll **y pwysau** y mae lleoliadau a gweithwyr gofal plant yn eu wynebu, megis gwaith papur, polisïau, gweithdrefnau a chyfrifoldebau (18 o ymatebwyr). Roedd 29 o ymatebwyr wedi cyflwyno sylwadau ‘eraill’ nad oedd yn disgyn i’r themâu a amlinellir uchod.

Er bod ymatebion gan **warchodwyr** yn cael eu cynnwys yn y themâu cyffredinol uchod, gellir ystyried hefyd y sylwadau a roddwyd i'r cwestiwn hwn gan 25 o warchodwyr fel grŵp ar wahân. Mae’r problemau ynghylch tâl isel yn ymddangos yn gryf mewn nifer o’r sylwadau hyn, mewn perthynas â’r tâl mae’r gwarchodwyr eu hunain yn ei dderbyn, yn ogystal â’r tâl a gynnigir i gymorthyddion. Eglurwyd fod incwm yn cael ei effeithio gan y cyfyngiad o faint o leoedd y gellir eu cynnig; yr anawsterau mewn llenwi lleoedd neu’r ansicrwydd ynghylch a fyddai lleoedd yn cael eu cymryd, methu â gallu codi mwy ar rieni am ofal plant a'r costau a threuliau o fod yn warchodwr. Soniodd rhai ymatebwyr hefyd am bwysau ychwanegol y gwaith papur a’r hyfforddiant mae’n rhaid eu gwneud, gydag un yn awgrymu y gallai hyn fod yn ffactor pam fod rhai gwarchodwyr yn gadael.

> “Y tâl yw’r brif broblem, rwy’n meddwl. Fel person hunan gyflogedig rwy’n teimlo fod rhieni’n meddwl eu bod yn talu ffortiwn am ofal plant. Ond pan rydych yn ei dorri i lawr, rwy’n gweithio am tua £4 yr awr fesul plentyn a chan mai dim ond 3 o rai bach y dydd rwy’n gallu cael, nid yw e’n arian ffantastig am y gwaith rwy’n ei wneud. Hefyd, mae gen i filiau gwresogi ayb ac weithiau, rwy’n gwneud 10 awr y dydd heb unrhyw egwyl. O gofio’r gwaith papur mae’n rhaid i ni ei wneud a’r cylchoedd rydym yn gorfod neidio trwyddyn nhw i Arolygiaeth Gofal Cymru, dydi hi ddim yn syndod fod pobl yn rhoi'r gorau i Warchod. (Gwarchodwr)

Crybwyllodd nifer o warchodwyr eu horiau gwaith hir (yn aml heb unrhyw egwyl a heb fawr ddim cydnabyddiaeth). Roedd yna hefyd sylwadau am y diffyg dilyniant gyrfa mewn gwarchod plant a’r ffaith ei fod yn dal i gael ei ystyried yn swydd sgiliau isel, gyda rhai yn sôn eu bod yn teimlo nad ydyn nhw’n cael eu gwerthfawrogi ddigon.

# Rhestr o Dablau

Tabl 1**: Awdurdod Lleol** .......... 4
Tabl 2**: Pa wasanaeth ydych chi'n darparu?** .......... 4
Tabl 3**: Pa fath o grŵp, sefydliad neu unigolyn sy'n berchen neu'n rheoli'ch lleoliad?** 5
Tabl 4**: Faint o staff ydych chi'n eu cyflogi yn y lleoliad hwn?** .......... 6
Tabl 5**: Oes gan eich staff gontract cyflogaeth?** .......... 7
Tabl 6**: Faint o staff sydd wedi'u cyflogi ar....?** .......... 8
Tabl 7**: Oes gan unrhyw un o'ch staff ail swydd neu ail incwm (rydych chi'n ymwybodol ohono?)** .......... 9
Tabl 8**: Ydych chi wedi recriwtio staff newydd yn ystod y 12 mis diwethaf?** .......... 14
Tabl 9**: A oes gennych chi swyddi gwag ar hyn o bryd?** .......... 15
Tabl 10**: A yw hi wedi bod yn anodd recriwtio staff ar gyfer eich lleoliad yn ystod y 12 diwethaf?** .......... 16
Tabl 11**: Beth yw'r cyfraddau tâl, ar gyfartaledd ar gyfer y canlynol:** .......... 18
Tabl 12**: Ydych chi wedi defnyddio cynlluniau Prentisiaeth y Llywodraeth, cynllun Prentisiaeth Mudiad Meithrin neu raglen Childcare Works Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd yn ystod y 12 mis diwethaf?** .......... 18
Tabl 13**: Ydych chi'n gweithio gyda chymhorthydd gwarchod?** .......... 20
Tabl 14**: Fel gwarchodwr ydych chi'n talu cyflog i chi'ch hunain?** .......... 24
Tabl 15**: Ydych chi'n cynllunio eich arian a'ch cyllideb ymlaen llaw?** .......... 24
Tabl 16**: Oes gennych chi arian wrth gefn/cynilion i dalu am eich incwm a'ch gwariant? (h.y. rhag ofn y bydd gennych lai o blant yn sydyn, argyfwng neu gau'r lleoliad)** ..... 25

# Rhestr o Ffigurau


Ffigwr 1**: Contract fesul math o leoliad** ... 7
Ffigwr 2**: Contract amser tymor fesul math o leoliad** ... 8
Ffigwr 3**: Ail swydd neu incwm fesul math o leoliad** ... 9
Ffigwr 4**: Lleoliadau ble mae staff wedi gadael yn ystod y 12 mis diwethaf** ... 11
Ffigwr 5**: Rhesymau dros staff yn gadael** ... 12
Ffigwr 6**: Pen taith staff ar ôl gadael cyflogaeth y lleoliad** ... 13
Ffigwr 7**: Wedi recriwtio staff newydd yn ystod y 12 diwethaf yn ôl lleoliad** ... 14
Ffigwr 8**: Sydd â swyddi gwag ar hyn o bryd yn ôl lleoliad** ... 15
Ffigwr 9**: Wedi recriwtio staff newydd yn ystod y 12 diwethaf yn ôl lleoliad** ... 16
Ffigwr 10**: Y prif resymau dros broblem recriwtio** ... 17
Ffigwr 11**: Wedi defnyddio cynlluniau Prentisiaeth y Llywodraeth, cynllun Prentisiaeth Mudiad Meithrin neu raglen Childcare Works Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd yn ystod y 12 mis diwethaf fesul lleoliad** ... 19
Ffigwr 12**: Rhesymau dro weithio gyda chymhorthydd gwarchod** ... 21
Ffigwr 13**: Recriwtio cymhorthydd gwarchod** ... 21
Ffigwr 14**: Hyder mewn meysydd cysylltiedig â gweithio gyda chymhorthydd gwarchod** ... 22
Ffigwr 15**: Hyder mewn meysydd cysylltiedig â gweithio gyda chymhorthydd gwarchod** ... 23